

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

299 - Beirniadaeth Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.12 a 13

Cyfansoddiad lleisiol ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd

Beirniad: Ann Hopcyn

Daeth un ymgais i law, sef unawd mewn arddull ysgafn ar eiriau 'Yfory' gan Geraint Eckley. Er bod cân wreiddiol Robot Arwyn yn gyfarwydd, doedd hynny ddim yn tynnu oddi ar y fersiwn newydd. Mae'r cyfeiliant yn bianistig ar y cyfan a'r alaw ar gyfer llais mezzo soprano yn ganadwy a rhythmau naturiol y geiriau yn cael eu parchu. Mae'r harmonïau'n eithaf llwyddiannus ond dylid ystyried os yw diweddebau'n argyhoeddi'n llwyr. Gellid hefyd trin y bont sy'n arwain at drawsgyweiriad yr ail bennill yn fwy deheuig.

(Byddai cord C yn sefydlu'r cywair newydd yn ddiamwys.)

Mae'r sgôr yn glir ond dymunol fyddai mabwysiadu confensiynau nodiant rhythm drwyddo draw.

Diolch i'r cystadleuydd am gyflwyno ei gyfansoddiad. Gydag ychydig mwy o waith golygu, gellid dyfarnu'r wobr gyntaf yn hyderus ond oherwydd y materion a nodwyd, dyfernir yr ail wobr.

2il - Geraint Eckley